# Rheolwr y dafarn a'r byncws.

# Tafarn yr Eagles, Penmachno

Cyflog: £30,000 y flwyddyn + cynllun cymhelliant

Llawn amser | Parhaol

Busnes dan berchnogaeth y gymuned.

## A fuasech chi'n gallu arwain un o dafarndai cymunedol mwyaf eiconig Eryri wrth iddi gychwyn ar gyfnod newydd?

Mae Cynnal Bro Machno yn chwilio am reolwr tafarn a byncws brwdfrydig, sy'n barod i fynd ati i arwain y gwaith o redeg Tafarn yr Eagles, Penmachno o ddydd i ddydd o fis Medi 2026 ymlaen. Dyma gyfle cyffrous i arwain y dafarn wrth iddi ddod yn eiddo i'r gymuned.

Wedi ei leoli yng nghanol Bro Machno, ym mharc Cenedlaethol Eryri, mae'r Eagles yn llawer iawn mwy na thafarn. Mae'n gyrchfan gymunedol bwysig, yn fan cymdeithasol Cymraeg ac yn le poblogaidd i ymwelwyr. Mae'n cynnwys tafarn traddodiadol a Byncws sy'n cynnwys 25 gwely.

**Beth fyddwch chi'n ei wneud?**

- Arwain y gwaith o redeg y dafarn a'r llety bync.
- Sicrhau profiadau rhagorol i gwsmeriaid a gwesteion.
- Rheoli staff, gwirfoddolwyr, stoc, cyllidebau ac archebion.
- Cefnogi digwyddiadau cymunedol a phartneriaethau lleol.
- Helpu'r busnes i dyfu gan warchod ei gwerthoedd cymunedol.
- Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant lleol.
- Gweithredu fel goruchwyliwr dynodedig y safle a sicrhau bod y dafarn yn bodloni'r gofynion trwyddedu.

**Rydym yn chwilio am rywun sydd â**

- Profiad o reoli yn y sector lletygarwch.
- Sgiliau arwain a threfnu rhagorol.
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol a phrofiad o ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid o safon uchel.
- Profiad o reoli cyllid a rhedeg busnes.
- Sgiliau Cymraeg (rhoddid blaenoriaeth i siaradwr rhugl neu rywun sydd wedi ymrwymo i ddod yn rhugl)
- Brwdfrydedd dros gymuned, cynaliadwyedd a lletygarwch gwledig.

**Rydym yn cynnig**

✅ Cyflog o £30,000 + cynllun cymhelliant

✅ Cyfraniad pensiwn dewisol o 3%

✅ 28 diwrnod o wyliau blynyddol (gan gynnwys gwyliau banc)

✅ Cyfle i wneud eich marc ar ddyfodol un o sefydliadau cymunedol pwysicaf Eryri.

I wneud cais, ewch i [www.cynnalbromachno.cymru/jobs/](http://www.cynnalbromachno.cymru/jobs/)

#HospitalityJobs #PubManager #Eryri #Snowdonia #NorthWalesJobs #Cymraeg #CommunityOwned #RuralHospitality